

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Gwener, 8 Gorffennaf 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd C. Weaver (Cadeirydd)

## **Y Cynghorwyr:**

S. Churchman, D.E. Williams, T. Palmer, M. Lewis. P. Lewis, M. Norris, a N. Yeowell

O. Richards – Cynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun (Aelod cyfetholedig heb bleidlais)

## **Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

C. Moore – Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (CSC)

L. Rees-Jones – Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (CSC)

C. Lee – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Dinas Caerdydd)

N. Aurelius – Prif Weithredwr Cynorthwyol – Adnoddau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)

J. Dong – Dirprwy Swyddog Adran 151/Prif Swyddog Cyllid (Dinas a Sir Abertawe)

D. Edwards – Cyfarwyddwr y Gronfa (Cyngor Gwynedd)

B. Davies – Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir y Fflint)

J. Thomas - Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Penfro)

P. Latham – Pennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)

A. Parnell – Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddi Pensiynau (CSC)

T. Williams – Uwch-swyddog y Gwasanaethau Ariannol (CSC)

J Owens – Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd (CSC) [Cynorthwyo]

K. Evans – Swyddog Cynorthwyol y Gwasanaethau Democrataidd (CSC) [Cymryd Nodiadau]

M. Evans Thomas - Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd (CSC) (Cynorthwyo)

R. Morris – Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd (CSC) [Gweddarlledu]

S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd (CSC)

## **Hefyd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau:**

A. A. Johnston – Hymans Robertson

R. Thornton – Link Fund Solutions

J. Zealander - Link Fund Solutions

K. Midl – Link Fund Solutions

N. Round – Northern Trust

A. Knell – Robeco

A. Samson– Robeco

J. Leggate – Russell Investments

W. Pearce – Russell Investments

G. Fitzpatrick – Russell Investments

J. Blewitt – Archwilio Cymru

## **Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:**

M. Falconer – Rheolwr Pensiwn (Dinas Caerdydd)

C. Hurst – Rheolwr Cronfa Bensiwn (Cyngor Sir Penfro)

D. Jones-Thomas – Rheolwr Buddsoddi (Cyngor Gwynedd)

Y. Keitch – Prif Gyfrifydd (Rhondda Cynon Taf)



D. Fielder – Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)

G. Watkins - Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw (Dinas Caerdydd)

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. ac o bell- 10.00 yb - 12.59 yp**

**1. PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Christopher Weaver yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.**

Diolchwyd i'r cyn-Gadeirydd am ei holl waith caled a'i gyfraniad i'r Cyd-bwyllgor yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Ted Palmer yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.**

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGANIADAU O FUDDIANT**

<b>Yr Aelod</b>	<b>Rhif yr Eitem ar yr Agenda</b>	<b>Buddiant</b>
Y Cynghorydd M. Lewis	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Abertawe ynghyd â'i wraig.
Y Cynghorydd S. Churchman	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd
Y Cynghorydd P. Lewis	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Powys
Y Cynghorydd N. Yeowell	Pob eitem ar yr agenda	Mae ei dad a dwy fodryb yn aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent ac yn y broses o ymuno â Chronfa Bensiwn Gwent
Y Cynghorydd M. Norris	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd T. Palmer	Pob eitem ar yr agenda	Mae ei bartner a'i ferch yn aelodau o Gronfa Bensiwn Clwyd ac yn y broses o ymuno â Chronfa Bensiwn Clwyd
Y Cynghorydd E. Williams	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
Y Cynghorydd C. Weaver	Pob eitem ar yr agenda	Mae'n aelod o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg



[SYLWER: Ceir eithriad yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei Awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

## **5. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 MAWRTH 2022**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a oedd wedi'i gynnal ar 23 Mawrth 2022 gan eu bod yn gywir.

## **6. DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2021/22**

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Lewis, P. Lewis, S. Churchman, M. Norris, T. Palmer, C. Weaver, N. Yeowell ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor y Ffurflen Flynyddol wedi'i harchwilio ar gyfer 2020/21. Roedd adrannau Datganiadau Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Ffurflen Flynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Cynnal yr oedd ei Adain Archwilio Mewnol wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol.

Roedd y Ffurflen Flynyddol hefyd wedi'i harchwilio gan Archwilio Cymru a chyflwynodd Mr Jason Blewitt o Archwilio Cymru y llythyr archwilio i'r Cyd-bwyllgor.

Roedd yr Awdurdod Cynnal hefyd wedi paratoi Datganiad Cyfrifon llawn i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021/22. Nid oedd y Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fyddai'n cael ei archwilio. Fe'i paratowyd er gwybodaeth yn unig, i gefnogi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

### **PENDERFYNWYD**

**6.1 Derbyn y llythyr gan Archwilio Cymru ynghylch Ffurflen Flynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru 2021/22;**

**6.2 Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol wedi'i Harchwilio ar gyfer 2021/22;**

**6.3 Nodi'r Datganiad Cyfrifon llawn heb ei Archwilio ar gyfer 2021/22**

## **7. DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA**

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Lewis, C. Weaver, P. Lewis, N. Yeowell, S. Churchman M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad cynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;
- Gwasanaethau gweithredwyr;



- Cyfathrebu ac adrodd;
- Hyfforddiant a chyfarfodydd; ac
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod diweddariad yr Awdurdod Cynnal yn cael ei dderbyn.**

## **8. ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 2 2022**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, C. Weaver, S. Churchman, M. Norris, T. Palmer E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Adolygiad Cofrestr Risg Ch2 2022. Yn ystod y chwarter diwethaf, roedd y Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad, gan edrych ar ail hanner adran Llywodraethu a Rheoleiddio'r Gofrestr Risg h.y. Risgiau G.7 i G.12. Crynhowyd canlyniadau adolygu pob risg mewn atodiad i'r adroddiad.

Argymhellwyd diwygio'r parti cyfrifol yn G9 i gynnwys y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r newidiadau i Gofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys diwygiad i G9.**

## **9. POLISI'AU / CYNLLUNIAU NEWYDD**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, C. Weaver, S. Churchman, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn manylu ar y canlynol:-

- Y Polisi Datgelu Camarfer
- Cynllun Dilyniant Busnes

Mae'r Polisi Datgelu Camarfer wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru sy'n rhoi arweiniad i bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru ar sut i godi pryderon os ydynt yn amau camymddwyn gan unrhyw un sy'n gweithredu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru neu ar ei rhan. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob tair blynedd.

Mae gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a darparwyr allanol presennol Partneriaeth Pensiwn Cymru eu polisi'au datgelu camarfer eu hunain ar waith.

Mae'r Cynllun Dilyniant Busnes wedi'i ddatblygu ac mae'n amlinellu sut y bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i weithredu yn ystod tarfu heb ei gynllunio yn y gwasanaeth. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.



**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r canlynol, fel y nodir uchod:-**

- **Y Polisi Datgelu Camarfer**
- **Y Cynllun Dilyniant Busnes**

**10. ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, C. Weaver, S. Churchman, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn manylu ar yr Adolygiadau Polisi Blynyddol a gynhaliwyd y chwarter hwn gan y Gweithgor Swyddogion ar y polisiau canlynol:-

- Polisi Pleidleisio
- Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Polisi Risg
- Polisi Risg Hinsawdd

Mewn perthynas â'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau, cyfeiriwyd at 16.2 a gofynnwyd i swyddogion a oedd yn angenrheidiol mewn gwirionedd i'r aelodau ddatgan buddiant ym mhob eitem ar yr agenda ac ym mhob cyfarfod ac na ellid gwneud datganiad blynyddol yn lle hynny. Eglurodd Swyddog Monitro'r Cyd-Bwyllgor bod y Côt Ymddygiad yn mynnu bod aelodau'n datgan unrhyw wrthdaro buddiannau ym mhob cyfarfod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**10.1 Cymeradwyo'r Polisi Pleidleisio**

**10.2 Cymeradwyo'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau**

**10.3 Cymeradwyo'r Polisi Risg**

**10.4 Cymeradwyo Polisi Risg Hinsawdd**

**10.5 Nodi'r diweddariad cynnydd blynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd**

**11. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, N. Yeowell, S. Churchman, C. Weaver, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:

- Daliannau Cyfredol y Gronfa;
- Cynnydd Lansio'r Gronfa;
- Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a cherrig milltir yr Is-gronfeydd canlynol:-



- Cyfran 1 – Ecwiti Byd-eang
- Cyfran 2 – Ecwiti y DU
- Cyfran 3 - Incwm Sefydlog
- Cyfran 4 – Marchnadoedd Datblygol

**PENDERFYNODD YN UNFRYDOL dderbyn y Diweddariad gan y Gweithredwr.**

**12. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 MAWRTH 2022**

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, C. Weaver, S. Churchman, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar yr Adroddiadau Perfformiad fel yr oeddent ar 31 Mawrth, 2022. Rhoddyd gwybod bod yr is-gronfeydd wedi perfformio'n uwch/ tanberfformio eu meincnodau priodol, fel a ganlyn:

- Perfformiodd Cyfleoedd Byd-eang 1.12% gros / 0.78% net yn uwch
- Perfformiodd Twf Byd-eang 0.86% gros / 1.31% net yn is
- Perfformiodd Marchnadoedd Datblygol 0.35% gros / 0.58% net yn is
- Perfformiodd Cyfleoedd y DU 1.85% gros / 2.27% net yn is
- Perfformiodd Bond Llywodraeth Fyd-eang 0.84% gros / 0.61% net yn uwch
- Perfformiodd Credyd Byd-eang 1.36% gros / 1.19% net yn uwch

**PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo Adroddiadau Perfformiad yr is-gronfeydd canlynol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2022:**

- 12.1. Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang;
- 12.2. Cronfa Ecwiti Byd-eang;
- 12.3. Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol;
- 12.4. Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU;
- 12.5. Cronfa Bond Llywodraeth Fyd-eang;
- 12.6. Cronfa Credyd Byd-eang;
- 12.7. Cronfa Credyd Aml-asedau;
- 12.8. Cronfa Strategaeth Bond Elw Absoliwt;
- 12.9. Cronfa Credyd y DU.

**13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio)**



(Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

#### 14. IS-GRONFA ECWITI GWEITHREDOL CYNLIADWY

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Lewis, P. Lewis, C. Weaver, N. Yeowell, S. Churchman, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar strwythur arfaethedig yr Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo strwythur arfaethedig yr is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, fel y manylwyd arno yn yr adroddiad.**

#### 15. ADOLYGIAD PERTHYNAS A PHERFFORMIAD BETNYCA GWARANNAU BYD-EANG

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd, **PENDERFYNWYD**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru drwy ragfarnu trafodaethau.

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr M. Lewis, P. Lewis, C. Weaver, S. Churchman, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad am Berthynas Bentyca Gwarannau Byd-eang ac Adolygiad Perfformiad ar gyfer 2021/22.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Berthynas Bentyca Gwarannau Byd-eang ac Adolygiad Perfformiad**

#### 16. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU CH1 2022

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 12 uchod,



fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, P. Lewis, C. Weaver, S. Churchman, N. Yeowell, M. Norris, T. Palmer ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

[NODER: Yn ystod yr eitem hon bu'n rhaid i'r Cynghorydd N. Yeowell adael y cyfarfod]

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor yr Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch1 2022.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr Adroddiad Ymgysylltu ar gyfer Ch1 2022.**

## 17. ADRODDIADAU BUDDSODDI CYFRIFOL A RISG HINSAWDD

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 13 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. Lewis, C. Weaver, S. Churchman, P. Lewis, M. Norris, ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

[NODER: Ar ddechrau'r eitem hon bu'n rhaid i'r Cynghorydd Ted Palmer adael y cyfarfod]

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd Ch1 2022 mewn perthynas ag is-gronfa Credyd y DU.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr Adroddiad Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd ar gyfer Ch1 2022.**

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD

